


Adroddiad ar gyfer	<b>Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru</b>	
Dyddiad	<b>16 Medi 2019</b>	
Swyddog Arweiniol	<b>Richard Fairhead, Prif Swyddog Tân Cynorthwyol</b>	
Swyddog Cyswllt	<b>Richard Fairhead, Prif Swyddog Tân Cynorthwyol (01745 535254)</b>	
Pwnc	<b>Paratoi ar gyfer ymadawiad y Deyrnas Unedig â'r Undeb Ewropeaidd (Brexit)</b>	

### **PWRPAS YR ADRODDIAD**

- 1 Rhoi gwybod i'r Aelodau am y camau a gymerwyd gan Wasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru (GTAGC) i baratoi ar gyfer ymadawiad y Deyrnas Unedig â'r Undeb Ewropeaidd.

### **CRYNODEB GWEITHREDOL**

- 2 Yn dilyn y refferendwm yn 2016, ar aelodaeth y Deyrnas Unedig o'r Undeb Ewropeaidd, mae GTAGC wedi bod yn ystyried pa effaith y gallai gadael yr UE ei chael ar yr Awdurdod a/neu weithrediadau'r Gwasanaeth yng Ngogledd Cymru.
- 3 Drwy weithio'n annibynnol a gyda sefydliadau sy'n bartneriaid iddo, mae GTAGC wedi ceisio canfod yr effeithiau posibl a'r camau y gellid eu cymryd i liniaru unrhyw effeithiau negyddol.
- 4 Yn fewnol, mae strwythurau'n bodoli i ganfod a cheisio lliniaru unrhyw broblemau posibl wrth ddarparu gwasanaethau tân ac achub. Yn allanol, mae GTAGC wedi bod yn gweithio drwy ei aelodaeth o Fforwm Lleol Cymru Gydnerth i ganfod a lleihau unrhyw effeithiau ar y gymuned yn ehangach yng Ngogledd Cymru.

### **ARGYMHELLION**

- 5 Bod yr Aelodau'n nodi'r wybodaeth a ddarparwyd yn yr adroddiad hwn.

### **SYLWADAU'R PANEL GWEITHREDOL/PWYLLGOR ARCHWILIO**

- 6 Nid yw'r Aelodau wedi ystyried yr adroddiad hwn o'r blaen.

## **CEFNDIR**

- 7 Canlyniad y refferendwm a gynhaliwyd ar 23 Mehefin 2016 oedd y byddai'r DU yn gadael yr Undeb Ewropeaidd. Ar 29 Mawrth 2017, fe wnaeth y DU danio Erthygl 50 o Gytuniad yr Undeb Ewropeaidd i gychwyn ymadawiad y DU â'r UE, sef Brexit. 30 Mawrth 2019 oedd y dyddiad cychwynol ar gyfer gadael yr UE ond cafodd estyniad ei negodi a nawr mae'r DU i fod i adael yr UE ar, neu cyn, 31 Hydref 2019.

## **GWYBODAETH**

- 8 Mae'r gwaith yn mynd yn ei flaen i ganfod effeithiau a risgiau posibl o ganlyniad i Brexit, ac i bennu a chyflwyno mesurau lliniaru.
- 9 Mae nifer o broblemau posibl yn rhai cyffredin i sawl rhan o'r sector cyhoeddus, ac maent yn ymwneud, er enghraifft, â'r posibilrwydd o darfu ar gadwyni cyflenwi, ac effaith straen ariannol yn economi'r DU ar ôl Brexit.
- 10 Hefyd, mae GTAGC yn cyfathrebu â phob aelod o'r staff i'w hatgoffa fod angen ystyried effaith Brexit arnyn nhw yn bersonol os ydyn nhw, neu aelodau o'u teulu, yn ddinasyddion yr UE, neu os oes ganddyn nhw, er enghraifft, aelodau o'r teulu sy'n ddibynnol ar wasanaethau mewn sectorau (e.e. gofal cymdeithasol) sy'n cyflogi cyfrannau cymharol uwch o ddinasyddion yr UE.
- 11 Mae'r Gwasanaeth wedi bod yn gweithio hefyd gyda phartneriaid yn y Fforwm Lleol Cymru Gydnerth i ganfod risgiau cyfun neu pryd mae angen gweithio ar y cyd i leihau'r effeithiau negyddol posibl ar aelodau o'r cyhoedd a chymunedau lleol. Yn benodol yng Ngogledd Cymru, rhoddwyd ystyriaeth, er enghraifft, i seilwaith y ffyrdd a rheoli ffin mewn perthynas â phorthladd Caergybi.
- 12 Damcaniaethol fu llawer o'r gwaith wrth gwrs, ac ni allai fynd y tu hwnt i gadw golwg gan aros am arwyddion mwy pendant o'r risg.

## GOBLYGIADAU

Amcanion Llesiant	Mae ail amcan llesiant yr Awdurdod yn ymwneud â hwyluso gwasanaethau tân ac achub sydd o ansawdd uchel, yn ymatebol ac wedi'u hintegreiddio'n well. Gallai tarfu ar y cadwyni cyflenwi, er enghraifft, effeithio ar allu'r Awdurdod i gyflawni'r amcan hwn.
Cyllideb	Straen ychwanegol bosibl ar gyllideb yr Awdurdod oherwydd mesurau lliniaru a/neu'r effaith yn fwy cyffredinol ar economi'r DU ar ôl Brexit.
Cyfreithiol	Mae dyletswyddau cyfreithiol ar yr Awdurdod i gynllunio ar gyfer, a cheisio lliniaru, risgiau a allai effeithio ar ei allu i ddarparu ei wasanaethau statudol ac i sicrhau bod ganddo ddigon o adnoddau i wneud hynny.
Staffio	Ni chanfuwyd dim.
Cydraddoldeb/Hawliau Dynol/Y Gymraeg	Ni chanfuwyd dim.
Risgiau	Risgiau'n gysylltiedig â pharhau i ddarparu gwasanaethau a chael digon o adnoddau ariannol digonol yn economi ansicr y DU ar ôl Brexit (fel uchod).